*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2617 (Cy. 256) (C. 104)

# BWYD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 1) 2013

*Gwnaed - - - - 11 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau yn adran 27(2) o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013(**1**).

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 1) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 28 Hydref 2013**

**2.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym at ddiben gwneud rheoliadau yw 28 Hydref 2013—

(a) adran 3(2), (3)(c) a (d) a (5);

(b) adran 5(4) a (10)(d);

(c) adran 6(2) a (3);

(d) adran 7(3) a (4);

(e) adran 12(2) a (9)(d); ac

(f) adran 15(1).

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 28 Tachwedd 2013**

**3.** Y diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym yw 28 Tachwedd 2013.

(a) adran 1;

(b) adran 2, ac eithrio paragraff (b) o is-adran (5);

(**1**) 2013 dccc 2.

(c) adran 3, at y dibenion sy'n weddill;
(d) adran 4;
(e) adrannau 5, 6 a 7, at y dibenion sy'n weddill;
(f) adrannau 8 i 11;
(g) adran 12, at y dibenion sy'n weddill;
(h) adrannau 13 a 14;
(i) adran 15, at y dibenion sy'n weddill;
(j) adrannau 16 i 26;
(k) adran 28; ac
(l) yr Atodlen.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Hydref 2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf ar 28 Hydref 2013 at ddiben gwneud rheoliadau.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym y darpariaethau a grybwyllir yn erthygl 2 ar 28 Tachwedd 2013 at bob diben arall, ac mae'n dwyn i rym bob darpariaeth arall yn y Ddeddf nad yw mewn grym eto ar y dyddiad hwnnw ac eithrio is-adran 2(5)(b) (sy'n estyn y diffiniad o "sefydliad busnes bwyd" i gynnwys sefydliad sy'n cyflenwi bwyd i fusnes arall).